



Cyngor Castell-nedd Port Talbot  
Neath Port Talbot Council

# Safonau'r Gymraeg

## Adroddiad Blynyddol 2019-2020

## Cynnwys

Cyflwyniad .....	3
Gofynion deddfwriaethol.....	3
Rhoi'r Safonau ar Waith .....	3
Cydymffurfio .....	4
Enghreifftiau o feysydd cydymffurfio .....	6
Penderfyniadau Polisi.....	7
Gofynion deddfwriaethol penodol .....	7
Sgiliau Iaith Staff .....	8
Cwynion .....	9
Dweud eich Dweud .....	11
Mesurau .....	12

Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn print bras neu mewn fformat arall, ffoniwch y Tîm Polisi Corfforaethol ar 01639 763010 neu e-bostiwch [polisi@npt.gov.uk](mailto:polisi@npt.gov.uk)

## **Cyflwyniad**

Lluniwyd yr Adroddiad Blynyddol hwn i fodloni gofynion Rheoliadau Mesur y Gymraeg (2011) a Safonau'r Gymraeg (Rhif1) 2015.

Rydym yn ymrwymedig i egwyddor Safonau'r Gymraeg ac yn ymdrechu i gydymffurfio â'r safonau fel y maent yn berthnasol i'r cyngor mewn amgylchedd sy'n parhau i fod yn un cyfyngedig o ran cyllid ac adnoddau.

Mae cychwyniad COVID -19 wedi cael effaith sylweddol ar ein gallu i lunio adroddiad blynyddol erbyn y dyddiad cyhoeddi statudol sef 30 Mehefin. Mae hyn oherwydd y bu'n rhaid adleoli llawer o'n gweithlu i feysydd gwasanaeth eraill, lle maent yn parhau i weithio, er mwyn cefnogi'r gwaith wrth fynd i'r afael â'r feirws a chefnogi preswylwyr ar yr adeg ddigynsail hon.

Roedd cychwyniad y feirws hefyd yn golygu y bu'n rhaid i ni wneud newidiadau sylweddol i'r ffordd roeddem yn gweithredu tua diwedd mis Mawrth, ac oherwydd diffyg sgiliau ieithyddol mewnol, effeithiodd hyn ar ein gallu i ddarparu cyfathrebiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ystod y cyfnod hwnnw.

## **Gofynion deddfwriaethol**

Mae'r safonau sy'n berthnasol i'r cyngor o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi'u cynnwys yn yr [hysbysiad cydymffurfio](#) sydd ar gael ar ein gwefan.

Fel rhan o ofynion y safonau, mae'n rhaid i ni lunio adroddiad blynyddol am sut rydym wedi cydymffurfio â'r safonau a darparu gwybodaeth am feysydd penodol; nifer y staff sy'n siarad Cymraeg a gofynion iaith swyddi gwag.

## **Rhoi'r Safonau ar Waith**

Y cyngor sy'n bennaf gyfrifol am roi'r safonau ar waith, gyda'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau ar waith er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r safonau. Yn ogystal, rydym yn cydnabod bod gan bob

aelod o staff rôl i'w chwarae er mwyn rhoi'r safonau ar waith yn llwyddiannus.

Yn ôl ein trefniadau llywodraethu, mae'n ofynnol i'r Cabinet fonitro'r Adroddiad Blyneddol, a bydd y Pwyllgor Craffu'r Cabinet yn cyflawni rôl bwysig wrth sicrhau y cynhelir cynnydd ar berfformiad.

Mae'r Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol yn cefnogi'r Prif Weithredwr ac aelodau etholedig, ac mae'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o weithredu'r safonau. Cadeirir y grŵp gan Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Chydraddoldeb ac mae'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o bob cyfarwyddiaeth yn ogystal â sefydliadau cydraddoldeb lleol.

Mae Grŵp Swyddogion yn Gymraeg yn cefnogi'r gwaith o weinyddu'r safonau a'u rhoi ar waith, ac yn helpu i ddatrys unrhyw broblemau sy'n codi yn gynnar ac yn cefnogi staff i ddarparu gwasanaethau'n unol â'r dyletswyddau a osodir ar y cyngor.

Mae'r holl wybodaeth a'r deunydd cefnogi sy'n ymwneud â rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith ar gael ar y fewnwyd, ac maent yn hygyrch i bob aelod o staff. Cynyddir ymwybyddiaeth o ofynion y safonau drwy'r Grŵp Rheoli Corfforaethol, timau rheoli cyfarwyddiaethau a chyfarfodydd tîm yn ogystal â thrwy ddulliau cyhoeddusrwydd mewnol y cyngor e.e. y cylchlythyr ar-lein 'In the Loop'.

## **Cydymffurfio**

Mae ein prosesau cyfieithu'n hen sefydledig er y cafwyd peth oedi oherwydd lefelau galw cynyddol ar ein gwasanaeth cyfieithu a rennir. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi nodi trefniadau ac arferion gweithio amgen i helpu i liniaru hyn ac felly i sicrhau y gallwn fodloni'n gofynion cyfreithiol.

Ym mis Hydref 2019, cynhaliom gyfarfod gyda Chomisiynydd y Gymraeg yn Ysgol Ystalyfera Bro Dur, ein hysgol uwchradd Gymraeg newydd. Ffocws y cyfarfod oedd sicrhau bod gennym gyd-ddealltwriaeth o'r blaenoriaethau rydym yn gweithio i'w cyflawni a'r cyfleoedd a'r heriau rydyn ni fel cyngor yn eu hwynebu. Mae Ysgol Ystalyfera Bro Dur wedi dangos

ein hymrwymiad at y Gymraeg ac egwyddorion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Aethpwyd i'r afael â phroblemau a nodwyd o ganlyniad i gwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn a rhoddwyd gweithdrefnau ar waith i sicrhau y gallwn gydymffurfio'n well â'r safonau yn y dyfodol, e.e. defnyddio negeseuon dwyieithog ym maes gwasanaeth cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, ymateb i ohebiaeth yn yr iaith briodol, etc.

Er mwyn penderfynu ar ba mor dda, neu fel arall, rydym yn cydymffurfio â safonau darparu gwasanaethau, cynhaliodd Grŵp Swyddogion y Gymraeg ymarfer monitro cydymffurfio yn ystod mis Mawrth/Ebrill 2019.

Roedd cydymffurfio at ei gilydd yn gadarnhaol yn y meysydd gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd rhai anghysondebau o fewn ac ar draws rhai meysydd gwasanaeth a nodwyd bod y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfrifon cyfryngau cymdeithasol penodol, ymdrin â rhai agweddau ar alwadau ffôn a llunio dogfennau yn feysydd pryder penodol mewn meysydd gwasanaeth penodol.

Bu cynrychiolwyr adrannol Grŵp Swyddogion y Gymraeg yn gweithio gyda'r is-adrannau perthnasol i fynd i'r afael â'r anghysondebau a'r bylchau mewn gwybodaeth mewn perthynas â gofynion y Gymraeg.

Mae cynllun gweithredu i fynd i'r afael â phroblemau defnyddio'r Gymraeg mewn cyfryngau cymdeithasol, a ddatblygwyd mewn ymateb i gŵyn a dderbyniwyd drwy Gomisiynydd y Gymraeg, yn cael ei ddatblygu gan yr holl wasanaethau â chyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

Er mwyn asesu cydymffurfio ymhellach, cynhaliwyd ymarfer siopwr dirgel yn ystod mis Chwefror/Mawrth 2020. Er nad yw wedi'i werthuso'n llawn, mae'r ymarfer wedi amlygu bod anghysondebau i'w cael o hyd ar draws rhai meysydd gwasanaeth. Yn ystod 2020-2021 bydd Grŵp Swyddogion y Gymraeg yn ystyried sut orau i gyflawni cysondeb mewn meysydd gwasanaeth ac ar eu traws.

## Enghreiffiau o feysydd cydymffurfio

- Mae nifer y bobl sy'n gofyn i ohebu gyda'r cyngor yn Gymraeg wedi cynyddu i 29 (ar 31 Mawrth 2020).
- Mae Grŵp Swyddogion y Gymraeg yn parhau i ddarparu cefnogaeth a chynghor i wasanaethau yn ogystal â darparu diweddariadau rheolaidd ar gynnydd, materion ac arfer da i'r Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol.
- Cyhoeddom yr [Adroddiad Cynnydd cyntaf ar gyfer Strategaeth Hybu'r Gymraeg](#). Mae cyfradd y cynnydd wedi bod yn gymysg; collwyd rhai targedau penodol neu fe'u cyrhaeddwyd yn rhannol gyda'r nod o sicrhau bod y cynllun yn dilyn yr amserlen wreiddiol yn ystod Hydref 2019 - Medi 2020.
- Yn ystod y flwyddyn, mae erthyglau Cymraeg rheolaidd ac arweiniad i sicrhau cydymffurfio wedi'u cynnwys yn ein cylchlythyr ar-lein 'In the Loop'. Mae hyn ar gael i'r holl staff drwy ein mewnwyd a sicrhawyd ei fod ar gael yn fwy diweddar drwy ein porth gweithwyr gan ganiatáu mynediad i staff ar eu dyfeisiau cartref.
- Cytunwyd ar raglen waith Grŵp Swyddogion y Gymraeg sydd â'r nod o gefnogi staff wrth roi'r safonau ar waith, cynorthwyo wrth nodi arfer da a monitro cydymffurfio.
- Mae'r broses Aseiad Effaith Integredig newydd, sy'n cynnwys ystyriaeth o ofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cael ei defnyddio o hyd.
- Parhaodd ein partneriaeth agos â Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot dros y cyfnod, yn arbennig o ran cefnogaeth a chynghor, cymorth gydag ymarferion cydymffurfio a sesiynau hyfforddiant.  
Rhoddwyd hyfforddiant gan Fenter Iaith Castell-nedd Port Talbot i Reolwyr Cyfrifol i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a hawliau pobl yn ogystal â darparu trosolwg o safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid i'r cyngor gydymffurfio â hwy.
- Dechreuom waith, gyda chefnogaeth Comisiynydd y Gymraeg, i ystyried argymhellion cychwynnol y Panel Safoni Enwau Lleoedd mewn perthynas ag enwau lleoedd lleol. Ataliwyd y gwaith hwn o ganlyniad o gychwyniad

y pandemig Coronafeirws, ond caiff ei ailddechrau cyn gynted ag y bo'n ymarferol i wneud hynny.

- Cynhaliodd Grŵp Swyddogion y Gymraeg ymgyrch ymwybyddiaeth fach ar 6 Rhagfyr 2019 (a gyflwynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg). Nod y diwrnod oedd dathlu gwasanaethau Cymraeg a hyrwyddo'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg. Ffocws yr ymgyrch oedd hawliau staff yn y gweithle; cafwyd posteri am hyn, erthyglau yn 'In the Loop' a sicrhawyd bod rhagor o wybodaeth ar gael i staff.

## **Penderfyniadau Polisi**

Mae'r broses Asesiad Effaith Integredig newydd yn cynnwys ystyriaeth o ofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r canlynol yn ddarn o'r hyn a gynhwyswyd yn yr asesiad effaith diwygiedig i ddangos cydymffurfiad:

'Mae arweiniad i gyd-fynd â'r broses Asesiad Effaith Integredig wedi'i lunio sy'n darparu gwybodaeth fanwl am yr ystyriaethau i'w rhoi mewn perthynas â'r Gymraeg ac mae ar gael i'r holl staff drwy'r fewnwyd. Darparwyd hyfforddiant ar y broses asesu i'r holl staff perthnasol (gan gynnwys uwch-reolwyr) yn ogystal ag i Aelodau etholedig.'

Mae'r holl adroddiadau am benderfyniadau i'r Cabinet/byrddau Cabinet yn cynnwys crynodeb o gasgliad yr Asesiad Effaith Integredig a gynhaliwyd, ynghyd â'r asesiad ei hun, sydd ar ffurf atodiad.

## **Gofynion deddfwriaethol penodol**

Swyddi gwag - gofynion sgiliau iaith Gymraeg

Dymunol	146 (gan gynnwys 8 swydd mewn ysgolion)
Hanfodol	36 (gan gynnwys 25 o swyddi mewn ysgolion)
Dim angen	390 (gan gynnwys 121 o swyddi mewn ysgolion)
I'w dysgu ar benodiad	1
<b>CYFANSWM</b>	<b>573</b>

## Sgiliau Iaith Staff

Cyfarwyddiaeth/Gwasanaeth	Gallu						Cyfanswm Staff
	Siaradwr ac ysgrifennwr gweddol rhugl	Siaradwr Cymraeg gweddol rhugl	Siaradwr ac ysgrifennwr rhugl	Siaradwr Cymraeg rhugl	Dysgwr Cymraeg	Cyfanswm	
Prif Swyddogion		1	1		1	3	6
Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Gwasanaethau Digidol	5	4	3	1	20	33	164
<b>Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes</b>							
Cyfranogiad	14	7	25	7	62	115	658
Trawsnewid	6	2	14	9	36	67	261
<b>Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol</b>							
Gwasanaethau Ariannol	3	4	2		10	19	165
Adnoddau Dynol	2	1	4		5	12	72
Gwasanaethau Cyfreithiol	5	1	3	1	12	22	80
<b>Amgylchedd</b>							
Peirianeg a Thrafnidiaeth	4	3	5	2	12	26	137
Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd	1	2	4	1	20	28	95
Eiddo ac Adfywio	2	5	3	2	12	24	141
Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru	1	4	7	4	14	30	197
Gwasanaethau Gofal Strydoedd	9	10	14	7	29	69	500
<b>Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai</b>							
Gwasanaethau i Oedolion	18	13	12	10	55	108	564
Gwasanaethau Busnes	2	3	2	2	9	18	108
Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc	11	9	23	3	43	89	365
Bae'r Gorllewin					7	7	22
<b>Cyfanswm</b>	<b>176</b>	<b>122</b>	<b>450</b>	<b>94</b>	<b>845</b>	<b>1687</b>	<b>3535</b>



Caiff sgiliau iaith eu hunanwerthuso a diweddarir cofnodion drwy'r porth gweithwyr felly ni chânt eu mesur yn erbyn lefelau cydnabyddedig. Ystyrir cyflwyno offeryn lefelau sgiliau ar draws y cyngor yn ystod 2020-2021.

## **Cwynion**

Derbyniwyd cyfanswm o wyth cwyn yn ystod 2019-2020; derbyniwyd saith drwy Gomisiynydd y Gymraeg a daeth un yn uniongyrchol at y cyngor

**CSG 538** – Adolygiad o Orsafoedd Pleidleisio. Roedd y fersiwn Gymraeg o lythyr yn hysbysu ynghylch newid i orsaf pleidleisio'n cynnwys testun Saesneg. Penderfynodd y Comisiynydd gan nad yw Swyddogion Canlyniadau yn gyfrifol am ddyletswyddau iaith nid oedd yn bosib cynnal ymchwiliad.

**CSG 576** – Twitter/Arwyddion - Neges Saesneg cyfrif Twitter @CyngorCnPT ac arwydd ger gorsaf Port Talbot. Ymdriniwyd â'r ddau fater drwy ymchwiliad mewnol y cyngor ei hun. Felly, gan fod y gŵyn oedd yn ymwneud â'r cyfrif Twitter wedi'i datrys, roedd y Comisiynydd yn barnu y byddai'n afresymol defnyddio'i adnoddau i gynnal ymchwiliad statudol. Hefyd, gan fod y gŵyn am yr arwydd wedi'i datrys yn foddhaol gan y cyngor, nid oedd angen cwblhau ymchwiliad statudol.

**CSG 577** - Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol – ymgynghoriad ar y polisi arfaethedig. Penderfynodd y Comisiynydd beidio â chynnal ymchwiliad gan na fyddai hyn yn ddefnydd rhesymol o adnoddau, ac ni fyddai'n mynd i'r afael â phryderon yr achwynydd.

**CSG 594** - Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol – y defnydd o'r Gymraeg yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus. Wrth gydnabod bod y cyngor wedi gwneud trefniadau i sicrhau nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, a bod gwasanaeth Cymraeg ar gael, roedd y Comisiynydd yn barnu bod cyfleoedd wedi'u colli wrth hyrwyddo gwasanaeth Cymraeg a phenderfynodd bod methiant i gydymffurfio â'r safonau perthnasol. Roedd angen i'r cyngor gymryd

camau pellach ar ffurf datblygu rhestr wirio wrth gynllunio digwyddiadau a mynd iddynt.

Oedwyd y gwaith i gwblhau'r rhestr wirio oherwydd cychwyniad y pandemig Coronafeirws, ac ymateb dilynol y cyngor. Fodd bynnag, caiff y gwaith hwn ei flaenoriaethu er mwyn ei orffen erbyn yr hydref.

**CSG 609** - Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol – ymgynghoriad ar y polisi arfaethedig. Penderfynodd y Comisiynydd beidio â chynnal ymchwiliad gan fod y cyngor wedi darparu copi o ohebiaeth yr oedd wedi'i rhannu â rhanddeiliaid yn eu hysbysu o'r penderfyniad i adolygu'r newidiadau polisi yng ngoleuni adborth a dderbyniwyd. Gan fod y broses penderfynu ar bolisiau'n dal i fynd rhagddo, roedd y Comisiynydd o'r farn y byddai'n rhwystrol i ystyried ymchwilio i honiad o fethu cydymffurfio â safonau a oedd yn ymwneud â'r penderfyniad hwnnw.

**CSG 650** – Galwad ffôn i'r rhif ffôn cyffredinol. Roedd y gŵyn yn cyfeirio at y defnydd o'r Saesneg ar alwad ffôn Gymraeg a phroblemau tebyg wrth i bobl gael eu cysylltu â maes gwasanaeth. Ataliwyd yr ymchwiliad gan y Comisiynydd oherwydd y sefyllfa bresennol gyda chychwyniad y pandemig Coronafeirws.

**CSG 682** – Arwyddion stryd, hawlenni parcio, deunydd marchnata  
Roedd y gŵyn yn cyfeirio ar ddiffyg Cymraeg ar arwydd stryd a hawlenni parcio ceir yn ogystal â'r honiad bod y Gymraeg wedi cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ddeunyddiau marchnata. Ar 25 Mawrth 2020 penderfynodd y Comisiynydd nad oedd methiant adnabyddedig i gydymffurfio, er bod y gŵyn yn ddilys.

Derbyniwyd y gŵyn ganlynol ynghylch y Gwasanaeth Cofrestryddion yn uniongyrchol gan y cyngor:

- Atebwyd e-bost Cymraeg yn Saesneg - camddealltwriaeth gan staff ynghylch manylion cronfa ddata Gymraeg, yr aed i'r afael ag e' drwy hyfforddiant staff.
- Pryder ynghylch diffyg darpariaeth gwasanaeth yn Gymraeg - nid oedd yr unig siaradwr Cymraeg wedi'i gyflogi mwyach yn y gwasanaeth.

Gwnaed trefniadau i sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu parhau i gynig gwasanaeth priodas yn yr iaith Gymraeg.

Cwyn i Gomisiynydd y Gymraeg a dderbyniwyd yn ystod 2018/2019:

**CSG 459** - Baner/Gwefan/Cyfryngau cymdeithasol. Ataliwyd yr ymchwiliad oherwydd cychwyniad y pandemig Coronafeirws ond bydd yn ailgychwyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

### **Dweud eich Dweud**

Croesewir ymholiadau neu adborth ar yr adroddiad hwn drwy:

E-bost: [polisi@npt.gov.uk](mailto:polisi@npt.gov.uk)

Post: Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Canolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ

Cyfryngau cymdeithasol:



Dilynwch ni ac ychwanegwch eich sylwadau at dudalen Facebook y cyngor:

<https://www.facebook.com/NeathPortTalbotCBC>



Dilynwch yr adroddiad hwn ac ychwanegwch eich trydarau at ein tudalen Twitter: [@CyngorCNPT](https://twitter.com/CyngorCNPT)



Dilynwch ni ar Instagram:

<https://www.instagram.com/nptcouncil/>

Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn print bras neu mewn fformat arall, ffoniwch y Tîm Polisi Corfforaethol ar 01639 763010 neu e-bostiwch [polisi@npt.gov.uk](mailto:polisi@npt.gov.uk)

## Mesurau

<b>Cyfieithiadau</b>	<b>2017-018</b>	<b>2018-2019</b>	<b>2019-2020</b>
Cyfanswm y costau cyfieithu (lle gellir eu nodi)	£55,584	£52,598	£49,573
Nifer y ceisiadau am gyfieithiadau a dderbyniwyd gan yr Uned Gyfieithu	788	1086	716
Er mwyn i ni gyflawni'n cyfrifoldebau cyfreithiol, bu'n angenrheidiol i wasanaethau gael cyfieithiadau gan ddarparwyr eraill. Nid yw cost hyn ar gael yn rhwydd ac yn y rhan fwyaf o achosion caiff ei chynnwys mewn costau cyhoeddi neu'r gyllideb gyffredinol ar gyfer y gwasanaeth.			

<b>Galwadau ffôn</b>	<b>2017-2018</b>	<b>2018-2019</b>	<b>2019-2020</b>
Nifer y staff â sgiliau iaith rhugl/gweddol rugl a nodwyd yn y cyfeiriadur gweithwyr	94	148	126
Amser cyfartalog i ateb galwadau ffôn - Saesneg	18 eiliad	22 eiliad	52 eiliad
Amser cyfartalog i ateb galwadau ffôn - Cymraeg	23 eiliad	20 eiliad	45 eiliad
Ym mis Ebrill 2019, gadawodd un o'r ddau siaradwr Cymraeg y gwasanaeth a effeithiodd ar ein gallu i ateb galwadau Cymraeg. Fodd bynnag, gwellodd yr amser cyfartalog yn ystod y flwyddyn wrth i ni recriwtio dau siaradwr Cymraeg.			

<b>Cyfryngau Cymdeithasol</b>	<b>31.03.18</b>	<b>31.03.19</b>	<b>31.03.20</b>
<b>Twitter</b>			
Dilynwyr - Cyfrif corfforaethol Saesneg	11,937	12,957	14,381
Dilynwyr - Cyfrif corfforaethol Cymraeg	160	227	306
<b>Facebook</b>			
Cyfrif corfforaethol Saesneg	6,337	8,321	10,878
Cyfrif corfforaethol Cymraeg	27	37	71

<b>E-gylchlythyr Newyddion CNPT</b>	<b>31.03.18</b>	<b>31.03.19</b>	<b>31.03.20</b>
Nifer y tanysgrifwyr i'r e-gylchlythyr Cymraeg	-	7	11
Nifer y tanysgrifwyr i'r e-gylchlythyr Saesneg	-	403	1221
Nifer y tanysgrifwyr i'r e-gylchlythyr dwyieithog	-	14	24

<b>Gwefan</b>	<b>2017-2018</b>	<b>2018-2019</b>	<b>2019-2020</b>
Cyfanswm yr ymweliadau â'n gwefan	2,845,526	2,981,002	3,576,298
Ymweliadau â gwe-dudalennau Cymraeg	24,192	29,758	34,045

<b>Sgiliau Iaith</b>	<b>2017-2018</b>	<b>2018-2019</b>	<b>2019-2020</b>
Siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn weddol rugl	174	186	176
Siarad Cymraeg yn weddol rugl	126	128	122
Siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl	429	466	450
Siarad Cymraeg yn rhugl	94	95	94
Dysgwr Cymraeg	748	828	845

<b>Swyddi gwag</b>	<b>2017-2018</b>	<b>2018-2019</b>	<b>2019-2020</b>
Roedd sgiliau'r Gymraeg yn ddymunol.	174	189 (64)	146 (8)
Roedd sgiliau'r Gymraeg yn hanfodol	36	29 (25)	36 (25)
Nid oedd sgiliau'r Gymraeg yn angenrheidiol	641	487 (207)	390 (121)
Roedd angen dysgu sgiliau'r Gymraeg ar ôl penodiad i'r swydd	3	0	1
SYLWER: Y ffigurau mewn cromfachau yw nifer y swydd gwag mewn ysgolion			

<b>Cwynion</b>	<b>2017-2018</b>	<b>2018-2019</b>	<b>2019-2020</b>
Nifer y cwynion a dderbyniwyd drwy Gomisiynydd y Gymraeg	3	4*	7**
Nifer y cwynion y penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg nad oedd angen ymchwilio iddynt (Newydd ar gyfer 2019-2020)	0	2	5
*ymchwiliad yn parhau mewn perthynas ag un gŵyn **ymchwiliad yn parhau mewn perthynas â dwy gŵyn			